

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Adroddiad Blynyddol 2020 - 2021

Mae cyfyngiadau COVID wedi golygu nad oedd yn bosib cynnal y cyfarfodydd misol yng Nghanolfan Gymdeithasol Golan.

Yn ystod misoedd Ebrill - Gorffennaf, parhaodd gwaith y Cyngor Cymuned drwy gyswllt rheolaidd rhwng y Clerc ac aelodau'r Cyngor.

Ym mis Gorffennaf 2020 penderfynwyd cynnal y cyfarfodydd yn rhithiol a threfnwyd 8 o gyfarfodydd y Cyngor llawn ac 1 cyfarfod ar y cyd o'r pwyllgorau Eiddo a Mynwentydd.

Eiddo

Gosodwyd to newydd ar y lloches bus ger Neuadd Garndolbenmaen.

Rhodddwyd drysau newydd ar y siediau ym Mynwent Bethel.

Glanhawyd llochesi bus Garndolbenmaen, Pentrefelin, Golan a Bryncir.

Mae cynllun 3 blynedd wedi ei gychwyn ar drin y canclwm yng Nghae Chwarae Penmorfa.

Cefnogwyd ceisiadau Pwyllgor Cae Chwarae Penmorfa yn ei ymgais llwyddiannus i sicrhau grantiau gan -

- Cadwch Gymru'n Daclus - pecyn cychwynol i greu lleoedd lleol ar gyfer natur yn yr ardal. Derbyniwyd pecyn gardd ffrwythau.
- Parc Cenedlaethol Eryri - Grant Gardd Gymunedol Penmorfa.
- Cyngor Gwynedd Grant Cyfalaf Chwarae Llywodraeth Cymru.

Ceisiadau Cynllunio

Gwnaethpwyd sylwadau ar 17 o geisiadau cynllunio -

Garndolbenmaen	3
Bryncir	3
Golan	3
Cwmystradllyn	1

Prenteg	5
Pentrefelin	1
Penmorfa	1

Rhoddion i Fudiadau/Elusennau

Talwyd cyfanswm o £3300 i 11 mudiad yn amrywio o £50 i £1000.

Gwaith yn y Gymuned

Cysylltu gydag adrannau Cyngor Gwynedd i dynnu ei sylw at waith neu welliannau sydd angen yn yr ardal.

Torri gwair 5 Mynwent a Chae Chwarae Penmorfa

Cynnal 18 o lwybrau cyhoeddus yn yr ardal.

Cynrychiolaeth ar Fwrdd Llywodraethol Ysgolion Garndolbenmaen a Thremadog.

Rhaglen Waith 2020 - 21

1. Gwaith atgyweirio Ffordd Mynwent Prenteg.
2. Gwaith cynnal a chadw ym Mynwent Bethel.
3. Prynu mainc newydd Mynwent Bethel.
4. Adolygu Rheolau Claddu'r Fynwent.